Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

1. Dechrau

1.4 Cynllunio eich gwaith

Gwneud cynllun

Unwaith mae eich grŵp yn weithredol, mae'n amser llunio cynllun gwaith syml. Gelwir hwn weithiau yn gynllun busnes neu gynllun strategaethol. Bydd yn dweud wrth eich aelodau, cefnogwyr a phobl eraill sydd â diddordeb, beth rydych yn gwneud, pam a sut y byddwch yn mynd ati. Efallai bydd angen cynllun arnoch os ydych yn gwneud cais am arian.

Dylai eich cynllun gynnwys ac esbonio:

- Beth yw bwriadau'r grŵp
- Sut y gwneir hyn
- Yr adnoddau sydd ar gael (e.e. amser a chefnogaeth pobl; unrhyw sgiliau arbenigol; arian; cyfarpar; defnydd lleoliad ac ati)
- Unrhyw adnoddau pellach sydd eu hangen, a sut y gellir dod o hyd iddynt (e.e. trwy recriwtio gwirfoddolwyr neu godi arian)
- Pryd y gobeithir gwneud hyn

Bydd llunio cynllun yn eich helpu i benderfynu ar flaenoriaethau. Er enghraifft, gall ddangos fod yr adnoddau gennych ar gyfer un gweithgaredd, ond nid un arall; neu fod angen mwy o arian cyn i chi recriwtio gwirfoddolwyr. Gallwch hefyd fesur eich cyflawniadau gan y byddwch yn gallu'u cymharu gyda beth mae eich mudiad wedi'i wneud.

Cydweithio fel grŵp

Nawr eich bod wedi darganfod nifer eraill o bobl sy'n dangos diddordeb, bydd angen i chi siarad â nhw, a dechrau sortio'ch cynlluniau a'ch cyflawniadau. Ar hyn o bryd rydych yn dysgu gweithio fel grŵp. Mae'n bwysig i ganiatáu digon o amser i drafod.

Hyd yn oed mewn grwpiau bach, fe fydd gwahanol farnau. Os ydych yn trafod yn llawn ac yn agored, gallwch ddod i gytundeb, sef y ffordd orau i fynd ymlaen. Po fwyaf y byddwch yn deall a pharchu barnau eraill, y gorau y byddwch yn cydweithio.

Dechrau da yw trafod y mater neu'r broblem. Peidiwch â synnu os welwch y cyfan mewn ffyrdd gwahanol, ac mae'n werth darganfod pam mae hyn. Gall fod gennych werthoedd gwahanol; gwahanol bersbectif ar y mater; neu mae gennych wybodaeth

wahanol, neu ddiffyg gwybodaeth. Byddwch yn ymwybodol bob amser na fydd pawb yn meddwl fel chi!

Mae'n werth cofio hefyd y bydd pobl wahanol yn dod â thalentau gwahanol i'r grŵp. Bydd rhai yn dda am gydweithio, ond ddim cystal am drefnu. Bydd gan rai pobl mwy o amser i'w gynnig nag eraill.Mae'n werth nodi hefyd fod pobl yn ymuno â grŵp am ystod eang o resymau - rhai'n ymuno i ddatblygu sgiliau newydd, cwrdd â phobl eraill neu eisiau gweithio gyda phobl debyg. Mae'n ddefnyddiol i ddarganfod pam fod pobl eisiau ymuno â'r grŵp fel y gellir defnyddio'u sgiliau mewn ffordd sy'n gweddu'r grŵp. Bydd hefyd yn sicrhau bydd y bobl sy'n ymuno yn mwynhau cymryd rhan.

Rheolau neu gyfansoddiad

Gallwch hefyd yma feddwl am roi at ei gilydd rai rheolau i'ch grŵp gytuno arnynt. Dylai'r rheolau yma amlinellu beth mae'r grŵp eisiau gwneud a sut y bydd yn gweithredu. Gelwir hwn fel arfer yn gyfansoddiad - peidiwch â theimlo'n annifyr am yr enw. Mae'n derm cyfreithiol a bydd staff eich Cyngor Gwirfoddol Sirol yn barod i'ch helpu gyda chynllun drafft. Nid ellir derbyn arian os nad oes yna gyfansoddiad. Gweler ein taflen wybodaeth *1.5. Dewis strwythurau cyfreithiol* am fwy o wybodaeth.

Bwriadau ac amcanion

Neu mewn geiriau eraill, beth ydych chi'n mynd i wneud, a sut ydych chi'n mynd i'w wneud?

Bwriadau: Disgrifio pwrpas eich grŵp, beth ydych eisiau cyflawni.

Amcanion: Disgrifio'r ffordd y byddwch yn cyflawni eich bwriadau hir dymor.

Arfau a thechnegau cynllunio

Datblygwyd yr arfau a'r technegau defnyddiol yma yn y sector breifat, ond gallant weithio'r un mor effeithiol mewn mudiadau gwirfoddol. Y gwahaniaeth yw, yn gyffredinol, ble bynnag mae'r sector breifat yn sôn am gynnyrch ac elw, mae'r sector wirfoddol yn dweud gwasanaethau a buddion i'r gymuned.

Dadansoddiad SWOT

Ffactorau mewnol: Cryfderau a Gwendidau

- Adnabyddwch **gryfderau**'ch mudiad: e.e. staff, gwirfoddolwyr, eich gwasanaeth, lleoliad, adeilad, proffil cyhoeddus...
- Adnabyddwch **wendidau**'ch mudiad: e.e. diffyg staff neu wirfoddolwyr, diffyg sgiliau, cyfarpar anaddas, TG gwan, cyhoeddusrwydd gwan...

Ffactorau allanol: Cyfleoedd a Bygythiadau

- Pa **gyfleoedd** sydd yna ar gyfer eich mudiad: e.e. galw cynyddol am eich gwasanaethau, ffynonellau ariannu newydd, deddfwriaeth newydd, newid polisïau llywodraeth?

- Pa **fygythiadau** mae eich mudiad yn eu hwynebu: e.e. cystadleuaeth am adnoddau, cwtogi ariannol posib, newid polisïau llywodraeth, deddfwriaeth newydd?

Nodwch sut mae'r un mater yn gallu bod yn gryfder *ac* yn wendid, neu yn gyfle *ac* yn fygythiad. Cynhwyswch ganlyniadau'r dadansoddiad SWOT yn eich cynllun.

Sicrhewch fod eich cynllun yn:

- gwneud iawn am bob gwendid
- gwneud y mwyaf o'ch cryfderau
- gwrthbwyso pob bygythiad
- cymryd y fantais fwyaf posib o'ch cyfleoedd.

Dadansoddiad cylch cynnyrch

Yn y byd masnachol mae gan gynnyrch a gwasanaethau gylch bywyd. Mae cynnyrch newydd yn gwerthu'n araf ar y cychwyn, yn adeiladu, yn cyrraedd uchafbwynt, wedyn mae gwerthiant yn gwastatau ac yn lleihau wrth i'r farchnad gyrraedd ei llawn, neu fod cynnyrch newydd yn cymryd ei le. Mae'r un patrwm yn wir yn y sector gwirfoddol. Marchnad mudiad gwirfoddol yw'r adrannau hynny o'r gymuned y ceisia eu helwa.

Gallwch gymhwyso dadansoddiad cylch cynnyrch i unrhyw faes gweithgaredd - e.e. y gwasanaethau a gynigiwch, eich ymgyrch codi arian, ffynonellau ariannu. Nid allwch gymryd yn ganiataol y bydd unrhyw un o'r rhain yn parhau am byth ar yr un lefel. Gwiriwch bob un o'ch prif weithgareddau yn nhermau ei gylch bywyd.

Pedwar cam y cylch cynnyrch:

Cam 1: gwasanaeth newydd ar y farchnad
Pan fyddwch yn lansio gweithgaredd newydd efallai bydd rhaid i chi greu galw amdano, neu mae'r galw yno, gyda niferoedd bychain. Bydd rhaid i chi hefyd godi arian ar gyfer gwasanaeth newydd.

Cam 2: twf y farchnad
Rydych yn cynyddu defnyddwyr ar gyfer y gwasanaeth neu mae'r arian yn tyfu.

Cam 3: gwastatau'r farchnad a chyrraedd ei llawn
Mae nifer y defnyddwyr, neu'r ariannu yn gwastatau.

Cam 4: lleihau'r farchnad

Mae nifer y defnyddwyr yn lleihau (efallai oherwydd newid anghenion): rydych yn dioddef toriadau ariannol, neu mae'r cyfnod ariannu yn dod i ben; neu mae eich gweithgareddau codi arian yn cynhyrchu lleiafswm yn unig, nid yw werth yr ymdrech. Pwrpas dadansoddiad cylch cynnyrch yw rhagweld pryd bydd gwasanaeth neu ffynhonnell arian yn cyrraedd uchafbwynt neu'n gwastatau, fel y gallwch newid cyfeiriad neu'i ddisodli cyn iddo leihau.

Dadansoddiad portffolio

Mae'r dechneg yma yn adnabod a gosod y gwasanaethau a phrosiectau a gynigir gan eich mudiad o fewn matrics portffolio (h.y Boston Matrix isod). Mae'n help i chi adnabod ble ddylech chi fuddsoddi'ch amser, egni ac adnoddau.
Gallwch gymhwyso hwn i'ch ffynonellau codi arian hefyd.

Cynnyrch Uchel SÊR prosiectau neu wasanaethau cryf a phoblogaidd gyda photensial amlwg	Cynnyrch Isel MARCIAU CWESTIWN prosiectau newydd ac arloesol, ond heb eu profi
Cynnyrch Uchel ARIAN DA gwasanaethau dibynadwy sy'n rhoi diogelwch i'r mudiad	Cynnyrch Isel MYND I'R GWELLT gwasanaethau sy'n dirywio a heb fod gwerth yr adnoddau

Trafod syniadau

Mae hwn yn ffordd dda i ddechrau meddwl yn greadigol am gyfeiriadau newydd yn y dyfodol. Mae'n cynnwys pob un, yn cofnodi meddyliau'r grŵp mewn unrhyw drefn, yn medru darganfod syniadau newydd ac mae'n hwyl. Mynnwch feddwl agored, byddwch yn anfarnol, a derbyniwch bob syniad. Gallwch ddadansoddi a dewis yn nes ymlaen.

Pwyntiau ar gyfer sesiynau cynllunio llwyddiannus

- Sicrhewch fod gennych amser i gynllunio - a rhowch ddigon ohono - efallai gallwch ddrafftio cynllun mewn hanner diwrnod, ond mae angen mwy o amser ar y mwyafrif o fudiadau.
- Cynlluniwch yr agenda ar gyfer eich sesiynau cynllunio ym mlaen llaw.
- Os yn bosib, cynhaliwch eich sesiynau cynllunio mewn amgylchfyd ffres, nid eich man arferol - gall newid amgylchfyd fod yn ysgogol, gall hybu syniadau newydd, a gall osgoi pobl i feddwl yn y ffordd arferol.

Wedi ei ddiweddaru:08/03/2011

- Cadwch draw oddi wrth ymyriadau, y ffôn a ffonau symudol.
- Gwnewch amserlen egwyl te, coffi a phrydau bwyd - trefnwch fwyd a lluniaeth os yn bosib.
- Penderfynwch pwy fydd yn cymryd rhan yn y sesiynau cynllunio - os nad ellwch gynnwys pawb yn y mudiad, penderfynwch sut y byddwch yn trafod gyda nhw a rhoi adborth.
- Dewiswch arweinydd da i'ch cymryd drwy'r broses gynllunio - gall hwn fod yn Gadeirydd neu'n hwylusydd allanol.
- Rhowch y dasg o gynhyrchu'r cynllun i berson allweddol neu grŵp bach.

Os ydych yn dewis ymgynghorydd ar gyfer cynllunio strategaethol, sicrhewch eich bod yn cadw rheolaeth. Defnyddiwch eich ymgynghorydd fel cynghorwr.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:08/03/2011

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk